Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llangadog
# Llangadog
# Sir Gaerfyrddin
# SA19 9HP

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 09/01/2015**

## Cyd-destun

Ysgol Gynradd cyfrwng Cymraeg yw Ysgol Llangadog. Mae wedi ei lleoli ym mhentref Llangadog yn Sir Gâr. Mae’n gwasanaethu’r pentref a’r ardal wledig gyfagos, sy’n cynnwys pentrefi Llanddeusant, Bethlehem a Gwynfe.

Mae cyfanswm o 89 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, sy’n cynnwys pump o ddisgyblion oed meithrin. Mae niferoedd disgyblion wedi disgyn dros y blynyddoedd diwethaf. Derbynia’r ysgol y disgyblion yn llawn amser ar ddechrau’r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Daw ychydig dros hanner y disgyblion o aelwydydd Cymraeg. Mae ychydig iawn o’r disgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol neu gymysg.

Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg gyda’r bwriad o sicrhau bod y disgyblion yn datblygu’n gwbl ddwyieithog erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Ychydig iawn o’r disgyblion sydd yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim. Mae 22% o’r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sydd yn uwch na’r ffigwr cenedlaethol. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yn Nhachwedd 2008. Mae’r pennaeth yn ei swydd ers Rhagfyr 2011.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Llangadog yn 2014-2015 yw £3,235. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Gâr yw £9,977 a'r lleiafswm yw £3,098. Roedd Ysgol Llangadog yn y 99ain safle o'r 103 ysgol gynradd yn Sir Gâr o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad Ysgol Llangadog yn dda gan fod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd ac yn cyflawni'n dda;
- bron pob un yn hyderus ddwyieithog erbyn diwedd cyfnod allweddol 2;
- lefelau presenoldeb ac ymddygiad uchel a disgyblion yn dangos agweddau positif at eu gwaith;
- profiadau dysgu ysgogol, ansawdd yr addysgu yn dda a staff cymorth yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol; a
- darpariaeth effeithiol i hyrwyddo lles ac ethos cynhwysol a chartrefol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon ar gyfer gwella yn dda gan fod:

- y pennaeth yn rhoi arweiniad cadarn a phwrpasol sy'n cael effaith bositif ar ddatblygiad yr ysgol;
- ddealltwriaeth gadarn gan y corff llywodraethol o'r ysgol a'i pherfformiad sy'n ei alluogi i roi cefnogaeth a chyfeiriad strategol cadarn i'r ysgol;
- holl aelodau staff yr ysgol yn cydweithio'n effeithiol fel tîm;
- yr ysgol wedi datblygu prosesau hunanarfarnu trylwyr a chynlluniau clir ar gyfer gwella sy'n canolbwyntio ar godi safonau; ac
- ystod dda o bartneriaethau sydd yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyflawniad disgyblion.

## Argymhellion

A1 Ymestyn ymhellach lefel yr her i ddisgyblion o allu uwch ar draws y cwricwlwm

A2 Sicrhau bod holl ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud defnydd llawn o'u medrau technoleg gwybodaeth i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm

A3 Gwella'r defnydd o arferion asesu ar gyfer dysgu er mwyn sicrhau bod disgyblion cyfnod allweddol 2 yn fwy ymwybodol o'r hyn sydd angen ei wneud i wella eu gwaith eu hunain

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn defnyddio eu medrau yn effeithiol ac yn dangos diddordeb a dyfalbarhad yn y gwersi.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n dda ac yn medru adalw ar ddysgu blaenorol yn briodol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau llafar yn effeithiol ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa yn hyderus mewn sefyllfaoedd gwahanol. Erbyn diwedd y cyfnod gall y rhan fwyaf sgwrsio'n eglur yn y Gymraeg a thrafod profiadau a digwyddiadau cyfarwydd yn hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion cyfathrebu yn hyderus yn y Gymraeg gan fynegi eu hunain yn glir a chywir. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn trafod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg gan ddefnyddio ystod briodol o eirfa addas wrth fynegi barn a siarad am eu gwaith yn y dosbarth. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae bron pob disgybl yn cyrraedd safon uchel o ddwyieithrwydd ac yn medru newid yn rhwydd o un iaith i'r llall yn wrth drafod eu gwaith.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Mae safon darllen rhan fwyaf disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn briodol i'w hoedran a'u gallu. Mae'r rhan fwyaf yn gyfarwydd ag ystod o strategaethau darllen ac yn gallu eu defnyddio'n effeithiol i ddarllen yn ystyrlon. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ystod amrywiol o lyfrau yn hyderus, deallus a chyda mynegiant. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn gynyddol gywir a hyderus yn y Gymraeg. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf hefyd yn darllen yn rhugl gyda mynegiant a dealltwriaeth dda yn Saesneg. Maent yn cymhwyso eu medrau darllen yn dda i gefnogi eu gwaith mewn ystod o bynciau, er enghraifft wrth gywain gwybodaeth am swyddogaeth y galon fel rhan o'r themâu ar y corff.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n annibynnol gan amrywio eu brawddegau a defnyddio atalnodi sylfaenol yn gywir. Mae'r rhan fwyaf y disgyblion o allu uwch yn defnyddio ansoddeiriau a chymariaethau'n effeithiol i gyfoethogi eu gwaith ysgrifenedig. Mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn greadigol ac wrth gofnodi eu profiadau dysgu ar draws y cwricwlwm. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau ysgrifennu'n at wahanol ddibenion yn effeithiol. Maent yn defnyddio paragraffau ac yn atalnodi yn gywir yn y ddwy iaith. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, gall y rhan fwyaf ysgrifennu'n estynedig i safon uchel yn y ddwy iaith mewn ystod o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Ar draws yr ysgol, mae safon llawysgrifen a chyflwyniad gwaith rhan fwyaf y disgyblion yn dda.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos gafael sicr ar ffeithiau rhif ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i ddatrys problemau rhif yn eu gweithgareddau. Mae llawer o ddisgyblion o bob gallu'n medru egluro'r prosesau y

maent wedi'u defnyddio i gael yr ateb cywir neu ddod i gasgliad arbennig. Maent yn ymdrin â mesuriadau gwahanol ac yn defnyddio geirfa fathemategol yn gywir i drafod eu gwaith. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn casglu, dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth ar ffurf graffiau yn effeithiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth dda o strategaethau rhifedd. Maent yn cymhwyso eu medrau mewn tasgau mesur, siâp, a thrin data gyda chywirdeb da. Maent yn casglu gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd ac yn cyflwyno eu casgliadau yn gywir ar ffurf tablau a graffiau gwahanol er enghraifft wrth fesur effaith ymarfer corfforol ar guriad y galon.

Mae bron pob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r targedau yn eu cynllun addysg unigol. Mae'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd cadarn yn unol â'i gallu. Mae rhan fwyaf y disgyblion o allu uwch yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd a rhifedd ond nid ydynt bob amser yn cael eu hymestyn ar draws y gweithgareddau dysgu.

Gall y niferoedd bach o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad cyffredinol yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 o un flwyddyn i'r llall.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y tair blynedd diwethaf, o gymharu ag ysgolion sydd â chanrannau tebyg o ddisgyblion sydd yn gymwys i gael cinio am ddim, mae perfformiad yr ysgol wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf. Mae perfformiad ar y deilliant 5 disgwyliedig mewn medrau iaith yn y Gymraeg wedi symud o'r 50% uwch i'r 25% uchaf. Mae perfformiad mewn datblygiad mathemategol wedi bod yn y 25% uchaf mewn dwy o'r blynyddoedd hynny. Mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch mewn medrau iaith ac mewn datblygiad mathemategol wedi gosod yr ysgol yn yr 50% uwch mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 2 dros gyfnod o bedair blynedd, o gymharu ag ysgolion â chyfrannau tebyg yn gymwys i gael cinio am ddim, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig wedi symud yr ysgol o'r 25% is i'r 50% uwch. Mae perfformiad yr ysgol wedi symud yr ysgol o'r 25% isaf i'r 25% uchaf yn Saesneg ac o'r 25% isaf i'r 50% is yn y Gymraeg a mathemateg. Mae perfformiad yr ysgol mewn gwyddoniaeth wedi bod yn 25% uchaf mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Yn ystod yr un cyfnod, mae perfformiad y disgyblion ar y lefel uwch gan mwyaf wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf a'r 50% is.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at fyw, bwyta ac yfed yn iach. Maent yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau corfforol, sy'n cyfrannu'n dda tuag at eu lles.

Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda ac yn dangos lefelau uchel o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith. Ar draws yr ysgol, mae'r mwyafrif yn cyfrannu eu syniadau eu hunain yn effeithiol i'r hyn y byddant am ei ddysgu. Fodd bynnag, dechrau datblygu mae eu medrau i wella eu dysgu eu hunain ac anghyson yw gallu disgyblion cyfnod allweddol 2 i arwain eu dysgu eu hunain.

Mae lefelau presenoldeb disgyblion wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf ysgolion tebyg dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae prydlondeb yn dda.

Mae llawer o'r disgyblion yn derbyn cyfrifoldebau yn gydwybodol o fewn cymuned yr ysgol. Maent yn elwa'n uniongyrchol o gysylltiadau cadarn sy'n bodoli rhwng yr ysgol ac ymwelwyr, ynghyd ag ymweliadau â'r gymuned leol. Mae llais y disgyblion yn cael sylw da, gyda'r ysgol yn ymateb yn dda i'w syniadau drwy'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco.

Drwy gyfrannu'n ddeallus i brosiect menter i greu crysau T gyda lluniau, mae disgyblion hŷn cyfnod allweddol 2 yn datblygu dealltwriaeth dda o fenter a busnes. Maent hefyd yn cymryd rhan flaenllaw yn rheolaidd mewn gweithgareddau cymdeithasol yn yr ardal.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

### Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog sy'n ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion. Mae profiadau dysgu bywiog ac ysgogol y Cyfnod Sylfaen yn diwallu anghenion yr holl ddisgyblion ac yn cyfrannu'n effeithiol tuag at eu datblygiad fel dysgwyr annibynnol. Mae profiadau dysgu yng nghyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n effeithiol ar y profiadau blaenorol ar gyfer rhan fwyaf y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion o allu uwch bob amser yn derbyn digon o her. Caiff gweithgareddau dysgu eu cyfoethogi trwy weithgareddau allgyrsiol ac ymweliadau preswyl.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i ofynion y Cyfnod Sylfaen a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae cynlluniau manwl ar gyfer gweithgareddau amrywiol yn y Cyfnod Sylfaen yn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn y medrau. Mae athrawon cyfnod allweddol 2 yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu medrau llafar, darllen, rhifedd ac ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid ydynt yn gyson yn ymestyn medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion ar draws y pynciau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn effeithiol. Mae'r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau gwerthfawr i gyfoethogi eu dealltwriaeth o ddiwylliant Cymreig, gan gynnwys croesawu ymwelwyr ac artistiaid i drafod chwedlau o'r Mabinogi.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang wedi ei datblygu'n dda yn y gwersi ynghyd â thrwy weithgarwch y cyngor eco. Mae'r llawer o ddisgyblion hŷn cyfnod allweddol 2 yn elwa o ymweliadau tramor sy'n cyfoethogi eu dealltwriaeth o fywyd mewn gwledydd eraill.

### Addysgu: Da

Mae ansawdd yr addysgu yn effeithiol ar draws yr ysgol. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir. Mae'r holl staff yn darparu model ieithyddol da. Maent yn holi'n dreiddgar ac yn defnyddio

ystod o ddulliau'n fedrus i sicrhau bod y gweithgareddau dosbarth yn ennyn diddordeb a brwdfrydedd rhan fwyaf o'r disgyblion. Fodd bynnag, mewn ychydig o'r gwersi, mae gorgyfarwyddo yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol.

Mae'r oedolion yn cynnal perthynas waith gadarnhaol sy'n sicrhau ethos cynhaliol a chefnogaeth effeithiol i'r rhan fwyaf o'r disgyblion. Mae'r staff cymorth yn chwarae rôl effeithiol wrth gefnogi'r dysgu ar draws yr ysgol.

Yn y gwersi, mae'r holl athrawon yn cynnig adborth llafar gwerthfawr i ddisgyblion. Maent yn marcio eu gwaith yn gyson ac mewn llawer o'r llyfrau maent yn cynnwys sylwadau adeiladol ar sut i wella'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r meini prawf llwyddiant. Anghyson yw'r cyfleoedd a roddir i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 i fyfyrio ar eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. O'r herwydd, nid yw rôl y disgyblion yn y broses o osod targedau a gwella eu gwaith wedi ei sefydlu'n gyson drwy'r ysgol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae gweithdrefnau lefelu a chymedroli gwaith y disgyblion dros amser yn sicrhau bod asesiadau athrawon yn gadarn. Mae rhieni yn derbyn gwybodaeth fuddiol am gyflawniadau a datblygiad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion yn dda ac yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad, ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Rhoddir cyfleoedd rheolaidd hefyd i ddisgyblion ddeall pwysigrwydd gofalu am rai llai ffodus na nhw.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth unigol da i ddisgyblion unigol ar faterion addysgol, cymdeithasol a phersonol. Mae'n cydweithio'n agos ag asiantaethau allanol ac yn sicrhau bod y disgyblion yn elwa o'r cymorth perthnasol sydd ar gael ar eu cyfer.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae'r athrawon yn adnabod anghenion y disgyblion hyn yn gynnar ac yn sicrhau cefnogaeth briodol iddynt o fewn y dosbarthiadau. Mae'r cynlluniau addysgu unigol ar gyfer y disgyblion yn cynnwys targedau clir, ac mae trefniadau priodol ar gyfer trafod cynnydd â'r rhieni. Trwy asesiadau rheolaidd, mae'r ysgol yn dilyn eu cynnydd yn ofalus i sicrhau eu bod yn cyflawni yn unol â'u targedau.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae naws deuluol i'r ysgol ac ymdeimlad cartrefol iawn. Mae'n gymuned hapus a chroesawgar gydag awyrgylch cyfeillgar ymhlith y staff a'r disgyblion. Mae'r ethos cynhwysol yn sicrhau bod pob disgybl yn cael hawl gyfartal i holl ddarpariaeth yr ysgol. Mae'r ysgol yn annog cydweithrediad, gofal a goddefgarwch rhwng oedolion a phlant a rhwng plant a'i gilydd yn llwyddiannus, ac yn talu sylw i gyfraniad pob unigolyn a'i safbwyntiau.

Mae'r adeilad a'r safle yn cynnig amgylchedd dysgu priodol ar gyfer y disgyblion. Mae'n cael ei gadw'n lan a thaclus ond digonol yw safon y cynnal a chadw. Mae'r staff yn gwneud defnydd da o'r gofod sydd ar gael. Mae amrywiaeth dda o adnoddau dysgu yn yr ysgol sy'n addas ar gyfer anghenion yr holl ddisgyblion ym mhob maes dysgu, heblaw am offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Mae'r ystafelloedd dosbarth yn lliwgar ac yn cynnwys arddangosfeydd graenus o waith a llwyddiannau'r disgyblion, sy'n symbylu'r dysgu. Mae'r ardal tu allan wedi cael ei datblygu yn adnodd defnyddiol i gefnogi profiadau dysgu disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r cwrs antur yn cyfrannu'n dda i hybu ffitrwydd disgyblion ac mae'r ardd eco a gynlluniwyd gan un o'r rhieni yn adnodd gwerthfawr i symbylu'r dysgu. Mae'r gweithgareddau hyn yn annog dealltwriaeth y disgyblion o fwyta a byw yn iach.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn rhoi arweiniad cadarn a phwrpasol sy'n cael effaith bositif ar ddatblygiad yr ysgol. Cydweithia'n agos â'r holl staff i greu ethos ysgol gyfan, cynhwysol sy'n cynnig profiadau ysgogol i ran fwyaf y disgyblion. O ganlyniad, mae ymrwymiad cryf ar draws yr ysgol i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau parhaus sy'n cryfhau'r ddarpariaeth a chodi safonau.

Mae gan yr holl staff swydd ddisgrifiadau sydd yn nodi cyfrifoldebau priodol yn glir. Mae cyfarfodydd staff a llywodraethwyr yn cael eu defnyddio i drafod blaenoriaethau a chynnydd yn rheolaidd, gyda sylw clir i godi safonau. Mae trefniadau rheoli perfformiad trylwyr yn cyfrannu at welliannau mewn addysgu a dysgu ac yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff trwy raglen gynhwysfawr o hyfforddiant.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyflawniad disgyblion, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd.

Mae'r corff llywodraethol yn gydwybodol ac ymroddgar. Mae dealltwriaeth y llywodraethwyr o ddata yn eu galluogi i roi trosolwg treiddgar o berfformiad yr ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu. Mae eu hymweliadau cyson â'r ysgol yn eu cynorthwyo i roi cefnogaeth a chyfeiriad strategol ac yn eu galluogi i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r pennaeth, staff a'r llywodraethwyr wedi datblygu gweithdrefnau trylwyr ar gyfer hunanarfarnu sy'n defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys data perfformiad disgyblion, arsylwadau ystafell ddosbarth a barn reolaidd disgyblion a rhieni. Mae'r disgyblion hŷn yn cyfrannu'n ddeallus i'r broses o ddadansoddi data. Mae cyfraniad yr holl arweinwyr yn y prosesau hunanarfarnu yn gymorth i roi arweiniad strategol cadarn i'r ysgol sy'n canolbwyntio ar godi safonau. Mae

deilliannau'r prosesau hyn yn darparu asesiad priodol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu, ac o ganlyniad, mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at yr adroddiad hunanarfarnu sy'n cynnig darlun cywir o'r ysgol.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir trwy'r broses hunanarfarnu i bennu blaenoriaethau allweddol a meysydd ffocws ar gyfer gwella'r ysgol.  Mae'r cynllun datblygu yn gynhwysfawr ac yn nodi targedau perthnasol a phenodol, ac mae ynddo feini prawf llwyddiant sy'n canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau disgyblion.  Mae'n rhoi amlinelliad clir o gyfrifoldebau staff, gofynion cyllidol a dulliau ar gyfer monitro cynnydd.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae'r ysgol yn cydweithredu'n effeithiol ag ystod o bartneriaid er mwyn cefnogi lles a chyflawniad disgyblion.  Mae'r partneriaeth gyda rhieni yn gadarn.  Teimla'r rhieni fod croeso iddynt yn yr ysgol, a bod eu safbwyntiau yn cael eu gwerthfawrogi.  Mae'r gymdeithas rhieni'n gefnogol iawn trwy weithgareddau codi arian a phrosiectau, fel trefnu'r dathliad 140 mlynedd yr ysgol yn ddiweddar.

Mae gan yr ysgol berthynas fuddiol iawn â'r cylch meithrin.  Mae'r trefniant wythnosol i blant y cylch i integreiddio'n yr ysgol yn eu helpu i ymgartrefu'n dda yn y Cyfnod Sylfaen.  Mae cysylltiadau cadarn a threfniadau trosglwyddo effeithiol rhwng yr ysgol a'r ysgolion uwchradd, ac mae amrywiaeth o weithgareddau pontio pwrpasol ar gyfer disgyblion.

Mae'r ysgol wedi cydweithio'n bwrpasol ag ysgolion y clwstwr a'r ysgol uwchradd fel rhan o drefniadau'r awdurdod lleol i safoni a chymedroli gwaith disgyblion.  Mae'r prosesau hyn yn cynorthwyo'r athrawon i ddeall yn well y safonau disgwyliedig ar ddiwedd y cyfnodau allweddol.

Mae partneriaeth gadarn gyda'r gymuned leol.  Mae cyfraniad y disgyblion tuag at weithgareddau cymunedol, ynghyd â'r nifer o ymwelwyr a ddaw i'r ysgol, yn ehangu a chyfoethogi'r profiadau dysgu.  Mae'r ysgol hefyd yn hyrwyddo ymdeimlad y disgyblion o bwysigrwydd cymuned a'u balchder yn eu hardal leol.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn dda.  Maent yn blaenoriaethu ac yn monitro gwariant yn ofalus, ac yn darparu adnoddau priodol ar gyfer blaenoriaethau'r ysgol.  Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o arian y grant amddifadedd disgyblion i gefnogi disgyblion sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Mae digon o aelodau staff â chymwysterau a phrofiad addas gan yr ysgol i gyflwyno'r cwricwlwm yn llwyddiannus.  Mae cysylltiad agos rhwng datblygiad proffesiynol staff, cynlluniau datblygu'r ysgol a system rheoli perfformiad yr ysgol.  Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu, ac mae'r trefniadau ar gyfer hyn yn cael eu rheoli'n dda.

Mae'r ysgol yn rhan o nifer o gymunedau dysgu proffesiynol sy'n cynnig ystod eang o gyfleoedd da i staff wella eu medrau a'u gwybodaeth broffesiynol ac mae hynny'n cael effaith gadarnhaol ar godi safonau. Mae'n meithrin cysylltiadau gydag ysgolion eraill yn yr ardal i gyfoethogi medrau entrepreneuraidd disgyblion ac yn cael effaith ar safonau mewn llythrennedd a rhifedd.

O ystyried cyflawniadau da'r disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6692080 - Ysgol Gynradd Llangadog**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 100 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 6.0 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 18 | 11 | 15 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 94.4 | 81.8 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 11 | 15 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 94.4 | 81.8 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 33.3 | 27.3 | 40.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 11 | 15 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 90.9 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 44.4 | 36.4 | 46.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 11 | 15 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 90.9 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 88.9 | 72.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6692080 - Ysgol Gynradd Llangadog**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 100 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 6.0 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 12 | 19 | 20 | 17 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 75.0 | 89.5 | 90.0 | 94.1 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 2 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 19 | 20 | 17 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 83.3 | 89.5 | 90.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 16.7 | 26.3 | 35.0 | 17.6 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 19 | 20 | 17 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 75.0 | 78.9 | 85.0 | 94.1 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 25.0 | 21.1 | 30.0 | 11.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 4 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 19 | 20 | 17 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 75.0 | 89.5 | 90.0 | 94.1 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 33.3 | 26.3 | 35.0 | 41.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 19 | 20 | 17 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 95.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 41.7 | 21.1 | 25.0 | 35.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 4 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

### Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 57 | 57<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 56 | 55<br>98%<br>92% | 1<br>2%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 57 | 57<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 57 | 57<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 57 | 57<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 56 | 56<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 57 | 57<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 57 | 56<br>98%<br>98% | 1<br>2%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 57 | 56<br>98%<br>91% | 1<br>2%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 57 | 57<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 56 | 46<br>82%<br>77% | 10<br>18%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 55 | 50<br>91%<br>84% | 5<br>9%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

# Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 25 | 13 | 10 | 1 | 0 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 52% | 40% | 4% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 25 | 19 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 25 | 16 | 8 | 1 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 64% | 32% | 4% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 25 | 12 | 9 | 3 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 48% | 36% | 12% | 4% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 25 | 10 | 13 | 0 | 0 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 40% | 52% | 0% | 0% | | |
| | | 45% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 25 | 9 | 12 | 2 | 0 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 36% | 48% | 8% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 7 | 2 | 4 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 29% | 57% | 14% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 7 | 1 | 2 | 3 | 0 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 14% | 29% | 43% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 24 | 15 | 7 | 1 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 62% | 29% | 4% | 0% | | |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 25 | 15 | 10 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 60% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 25 | 13 | 10 | 2 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 52% | 40% | 8% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 25 | 10 | 7 | 2 | 0 | 6 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 40% | 28% | 8% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 25 | 9 | 14 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 36% | 56% | 8% | 0% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 25 | 13 | 8 | 4 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 52% | 32% | 16% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 25 | 11 | 7 | 4 | 1 | 2 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 28% | 16% | 4% | | |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 8 | 2 | 5 | 0 | 0 | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 25% | 62% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 25 | 8 | 10 | 2 | 1 | 4 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 32% | 40% | 8% | 4% | | |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 25 | 18 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 72% | 28% | 0% | 0% | | |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 25 | 8 | 14 | 1 | 0 | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 32% | 56% | 4% | 0% | | |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| Olwen Corben | Arolygydd Cymheiriaid |
| Aled Rees | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.